

## CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM

### ADRODDIAD BLYNYDDOL AELOD

Adroddiad yw hwn gan y Cynghorydd isod ynglŷn â'i brif weithgareddau yn ystod blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw bwrpas arall.

*Cyfarwyddiadau cwblhau*

*Mae Cynghorwyr yn rhydd i gynnwys cymaint neu gyn lleied o wybodaeth ag y dymunant ym mhob adran. Fodd bynnag, rhaid cadw'r adroddiad i fformat 2 dudalen (uchafswm).*

**Cynghorydd:** Graham Rogers

**Plaid:** Llafur Cymru

**Ward:** Hermitage

#### **Adran 1: Swyddogaeth a Chyfrifoldebau:**

Rwy'n aelod o'r Pwyllgorau canlynol yn fy rôl fel Cynghorydd Sir Ward Hermitage (darparwyd y ffigurau presenoldeb gan CBSW):

- Pwyllgor Craffu Amgylchedd a Chartrefi ac unrhyw is bwyllgorau a fynychir.
- Pwyllgor Cynllunio a'r Panel Polisi Cynllunio.
- Mynychu Cydgyngor Cymru ddwywaith y flwyddyn yn Llandrindod i gynrychioli Cyngor Wreccsam.
- Aelod o Grŵp Partneriaeth Rheilffyrdd.
- Aelod o Fwrdd Partneriaeth Tenantiaid ac Aelodau Wreccsam
- Aelod o'r Pwyllgor Cwynion
- Mynychu Bwrdd Gweithredol neu Bwyllgor Craffu neu unrhyw gyfarfodydd eraill pan fydd angen er mwyn codi materion sy'n effeithio trigolion Hermitage.

Rwy'n aelod o'r Pwyllgorau allanol canlynol (darparwyd y ffigurau presenoldeb gan y Cynghorydd):

- Aelod o grŵp Trigolion Beechley Road.
- Cyngor Cymuned Offa yn fy rôl fel Cynghorydd Sir ar gyfer ward Hermitage. Rwyf hefyd yn cynorthwyo i drefnu Carnifal yr Haf a Pharti Nadolig y Pensiynwyr.
- Aelod o Gymdeithas Trigolion Barracksfield ac yn ymwneud â threfnu gweithgareddau i blant fel y ffair haf a'r parti Nadolig sy'n cynnwys ymweliad gan Siôn Corn a'r fflôt a ddarperir gan y Venture.
- Cadeirydd Plaid Lafur Wreccsam ac Aelod o CLP Wreccsam.

#### **Adran 2: Gweithgareddau Etholaeth:**

- Rwyf yn parhau i fynd i'r afael ag unrhyw bryder sydd gan drigolion mewn modd amserol, naill ai wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu ar e-bost, gan gysylltu ag Adrannau'r Cyngor a diweddarau cyfrif Twitter.
- Rwy'n cerdded o amgylch ward Hermitage yn rheolaidd gyda'r PSCO lleol, Y Gwasanaethau Stryd ac ar fy mhen fy hun.
- Rwyf yn cynnal cymorthfeydd bob yn ail fis yn Ysgol Sant Christopher ac yng Nghanolfan Adnoddau Cymunedol Hightown.
- Ymgysylltu gyda Heddlu Gogledd Cymru i drefnu gwirio cyflymder yn y ward pan fyddaf yn cael cais i wneud hynny.
- Rwyf yn dal wrthi yn gweithio ar fabwysiadu Range Road, ond yn falch o adrodd ein bod wedi mynd i'r afael â'r mater gyda Chlymog Japan.

- Mae gwely o flodau wedi ei osod ger maes parcio'r Travellers Rest a fydd yn dod â lliw i'r ardal hon o'r ward.
- Oherwydd y cyhoeddiad a wnaed gan Y Weinyddiaeth Amddiffyn i gau gweinyddiaeth / safle'r Peirianwyr Trydan a Mecanyddol Brenhinol (REME) a bûm yn ymwneud â threfnu deiseb oedd yn cynnwys ac a gafodd ei chefnogi gan Aelod Lleol y ward Whitegate sef y Cynghorydd Brian Cameron, cynhaliwyd y ddeiseb ar nifer o ddyddiau Sadwrn rhwng Ionawr a Mawrth a chasglwyd mwy na 2,000 llofnod a'u cyflwyno i AS Wreccsam Mr Ian Lucas er mwyn iddo siarad yn Senedd Llundain, fy nealltwriaeth wedi siarad â'r AS yw ei fod yn aros i drafod y mater a chael ymateb iddo.

### **Adran 3: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig:**

- Er i mi gael fy ethol rwyf wedi cynnal diwrnodau amgylcheddol yn y ward sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn ac rwy'n cael cefnogaeth Gweithlu Ysgol Sant Christopher, Tai, y Gwasanaethau Stryd a'r Heddlu. Cynhaliwyd digwyddiad ym Mehefin 2016 fu'n llwyddiant arall, a glanhawyd ward Hermitage.
- Rwyf yn paratoi newyddlen i ddarparu gwybodaeth i drigolion am wahanol faterion rwy'n dosbarthu'r newyddlen fy hun i bob eiddo yn y ward dair neu bedair gwaith y flwyddyn.
- Rwy'n ysgrifennu i roi gwybod i drigolion mewn ardaloedd arbennig am faterion penodol sy'n achosi pryder i drigolion Hermitage.
- Rwy'n parhau i weithio'n agos gyda goruchwylwyr y Gwasanaeth Prawf fel maent yn parhau i fy nghynorthwyo i lanhau Ward Hermitage.
- Mae'r ymarfer ger cyffordd Norman Road / Llwyn Stockwell wedi ei gwblhau ac mae gardd goffa wedi ei gosod ar rwyf yn y broses o drefnu coffa a phlac i'r diweddar Syr Hugh Stockwell o'r Gatrawd Frenhinol Gymreig.
- Parc Hermitage – rwy'n derbyn nifer o bryderon am y nifer y ponciau arafu sydd yn yr ardal ac rwyf mewn trafodaethau gyda Priffyrdd a fydd yn parhau am gyfnod.
- Rwy'n gwirio'r ward yn rheolaidd am unrhyw olau stryd nad ydynt yn gweithio ac yn cysylltu gyda Goruchwylwr Trydanol y Gwasanaethau Stryd.

### **Adran 4: Dysgu a Datblygu a Gwblhawyd:**

- Rwy'n parhau i fynychu pob gweithdy i aelodau er mwyn cynyddu fy nealltwriaeth o bob mater sy'n gysylltiedig â'r Pwyllgorau yr wyf yn rhan ohonynt.

### **Adran 5: Gweithgareddau a Materion Eraill:**

- Rwyf yn llywodraethwr ysgol gweithgar yn Ysgol Bodhyfryd ac Ysgol Sant Christopher.
- Os oes angen rwy'n cysylltu â Mr Ian Lucas AS a Ms Lesley Griffiths AC ar faterion na fedraf eu datrys fy hun.

**Llofnod y Cynghorydd:** *Clr Graham Rogers*

**Dyddiad:** 14 Medi 2017